SUL CYFFREDIN 5

**1 SAMUEL 8:4-11 [12-15] 16-20 [11:14-15]; SALM 138;
2 CORINTHIAID 4:13–5:1; MARC 3:20-35**

● **Gweddi agoriadol**

Drwy'r byd
daw dy blant ynghyd,
mewn dinas, tref,
pentref,
gwersyll ffoaduriaid,
ble bynnag y gallant.
Felly unwn gyda'u lleisiau hwy
mewn symffoni o foliant
gyda'r côr nefol.

● **Moliant**

Mae dy air yn ddibynadwy;
gwelodd cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth
dy wirionedd
yn torri drwy'r byd hwn
i mewn i galonnau ac eneidiau,
ble y gall
dyfu
  a blaguro
a gogoneddu dy enw.

Mae dy gariad yn dragwyddol;
bendithiwyd cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth
drwy osod eu ffydd ynot ti,
cerdded yn ôl dy droed
a byw bywydau
sy'n syml,
ddiymhongar,
ogoneddu dy enw.

● **Cyffes**
Maddau i ni, Arglwydd,
pan fo ein bywydau mor brysur
bod ein llygaid yn cael eu denu
at bleserau dros dro
y byd hwn
ac i ffwrdd
oddi wrth y tragwyddol.

Maddau i ni, Arglwydd,
pan fo trafferthion y foment
yn llenwi oriau ein diwrnod
a'r baich yn rhy drwm
i'w gario,
ac eto methwn
benlinio wrth dy draed.

Cadw ein llygaid arnat ti, Arglwydd,
Ti ein nerth a'n noddfa,
achos gallwn ymddiried yn dy drugaredd
a dibynnu arno.

● Diolch

Am gariad
sy'n rhoi bri arnom ni hyd yn oed –
mor anhaeddiannol,
mor barod i fethu,
mor betrusgar ein ffydd –
cyflwynwn ein diolch dwfn.

Am gariad
sy'n ein bendithio a'n tywys ni
sy'n crwydro'n aml,
sydd â ffydd mor frau,
sydd wastad ag angen dy gymorth,
cyflwynwn ein diolch dwfn.

Am gariad,
na fyddem yn ddim hebddo,
ac o'i berchnogi
sy'n bopeth,
cyflwynwn ein diolch dwfn.